CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL

CYNGOR SIR DDINBYCH
HYSBYSIAD O WAHARDDIAD PARHAOL
(BULL LANE, DINBYCH)
GORCHYMYN (GWAHARDD AROS) 201 .
DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adrannau 1(1) a (2), 2(1) i (3) a 4(2) a (3), 32, 35, 45, 46, 47, 49, 51, 52 a 124 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, ac effaith hynny fydd gwahardd cerbydau rhag aros ar yr hydoedd hynny o ffordd a nodir yn yr Atodlen isod.

Fe ddarperir eithriadau yn y Gorchymyn arfaethedig i ganiatáu aros ar yr hydoedd hynny o ffordd y cyfeirir atyn nhw yn yr Atodlen i ddibenion disgyn, mynd i gerbyd, llwytho a dadlwytho, a gwaith cynnal, atgyweirio a gwaith tebyg.

Fe ddarperir eithriadau hefyd yn y Gorchymyn arfaethedig i ganiatáu i gerbydau sy'n arddangos Bathodyn Person Anabl a Disg Parcio Person Anabl aros ar yr hydoedd hynny o ffordd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn arfaethedig am gyfnod sy'n ddim hirach na 3 awr (heb fod yn gyfnod a wahenir gan egwyl o lai nag 1 awr o gyfnod aros blaenorol gan yr un cerbyd ar yr un diwrnod).

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig ynghyd â map yn dangos yr hydoedd hynny o ffordd y mae'r Gorchymyn yn berthynol iddyn nhw a datganiad o resymau'r Cyngor am gynnig gwneud y Gorchymyn, yn Llyfrgell Dinbych, Sgwâr y Neuadd, Dinbych ac yn swyddfeydd y sawl sydd wedi arwyddo isod yn ystod oriau swyddfa arferol. Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â'r sail i'r gwrthwynebiadau, yn ysgrifenedig at y sawl sydd wedi arwyddo isod erbyn Medi 24, 2010.

Atodlen
Hydoedd o Ffordd yn Ninbych yn Sir Ddinbych.
Dim Aros ar Unrhyw Adeg

Bull Lane
Ochr y gorllewin;
O linell palmant deheuol Sgwâr y Neuadd am bellter o 96 metr i gyfeiriad y de.

Ochr y dwyrain;
O linell palmant deheuol Sgwâr y Neuadd am bellter o 57 metr i gyfeiriad y de.

Dyddiedig: 26 Awst 2010.
I.K.Hearle, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych.

DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL
NOTICE OF PERMANENT PROHIBITION
(BULL LANE, DENBIGH)
(PROHIBITION OF WAITING) ORDER 201 .
ROAD TRAFFIC REGULATION ACT 1984

Denbighshire County Council propose to make an Order under Sections 1(1) and (2), 2(1) to (3) and 4(2) and (3), 32, 35, 45, 46, 47, 49, 51, 52 and 124 of the Road Traffic Regulation Act 1984, and the effect of which will be to prohibit the waiting of vehicles in the lengths of road specified in the Schedule below.

Exceptions will be provided in the proposed Order to permit waiting in the lengths of road referred to in the Schedule for the purposes of alighting, boarding, loading and unloading, and works of maintenance, repair and the like.

Exceptions will also be provided in the proposed Order to allow vehicles displaying both a Disabled Person's Badge and a Disabled Person's Parking Disc to wait in the lengths of road specified in the Schedule of the proposed Order for a period not exceeding 3 hours (not being a period separated by an interval of less than 1 hour from a previous period of waiting by the same vehicle on the same day).

A copy of the proposed Order together with a map showing the lengths of road to which the proposed Order relates and a statement of the Council's reasons for proposing to make the Order may be examined at Denbigh Library, Hall Square, Denbigh and at the offices of the undersigned during normal office hours. Objections to the proposed Order, together with the grounds on which they are made, should be sent in writing to the undersigned by 24 September 2010.

Schedule
Lengths of Road at Denbigh in the County of Denbigh.
No Waiting At Any Time

Bull Lane
West side;
From the southerly kerbline of Hall Square for a distance of 96 metres in a southerly direction

East side;
From the southerly kerbline of Hall Square for a distance of 57 metres in a southerly direction

Dated: 26 August 2010.
I.K.Hearle, Head of Corporate Governance, Denbighshire County Council, County Hall, Wynnstay Road, Ruthin, Denbighshire.